Llywodraeth EF

# Gwneud i Waith Dalu: Cryfhau Tâl Salwch Statudol

## Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar y gyfradd ganrannol i'r rhai sy'n ennill llai na'r gyfradd bresennol o Dâl Salwch Statudol

CP 1275W

# Gwneud i Waith Dalu: Cryfhau Tâl Salwch Statudol

## Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar y gyfradd ganrannol i'r rhai sy'n ennill llai na'r gyfradd bresennol o Dâl Salwch Statudol

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau
trwy Orchymyn ei Fawrhydi

Mawrth 2025

CP 1275W

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2025**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3**

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn **https://www.gov.uk/government/consultations/making-work-pay-strengthening-statutory-sick-pay**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn **ssp.team@dwp.gov.uk.**

ISBN 978-1-5286-5382-4

E03273303 03/25

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 40% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd ar ran rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

# Cynnwys

**Crynodeb Gweithredol** 3

**Sut y gwnaethom ymgynghori** 4

**Canran yr enillion y dylid eu talu hyd at gyfradd wythnosol unffurf Tâl Salwch Statudol** 5

Beth ddylai'r Gyfradd Ganrannol fod 6

Effaith ar Gyflogwyr 7

Effaith ar Gyflogeion 9

Safbwynt y Llywodraeth ar y gyfradd ganrannol 10

**Materion eraill a godwyd gan ymatebwyr** 12

Pryder am ddileu'r cyfnod aros 12

Cymorth i Fusnesau 12

Galwadau i gynyddu cyfradd SSP 13

Diwygio SSP ymhellach 13

**Casgliad a Chamau Nesaf** 14

# Crynodeb Gweithredol

Fel rhan o'n Cynllun Gwneud i Waith Dalu, mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i sicrhau bod y rhwyd ddiogelwch o dâl salwch ar gael i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Ar 10 Hydref 2024, gwnaethom gyflwyno'r Bil Hawliau Cyflogaeth i'r Senedd, cam sylweddol tuag at gyflenwi'r uchelgais hwn a chynrychioli'r uwchraddiad mwyaf i hawliau gweithwyr mewn cenhedlaeth.

Ar gyfer rhai sydd ar gyflogau is, gan gynnwys y rhai sy'n ennill llai na'r Terfyn Enillion Isaf, cyfrifir cyfradd eu Tâl Salwch Statudol fel canran o'u henillion yn hytrach na'r gyfradd wythnosol unffurf. Mae'r *Cynllun Gwneud i Waith Dalu* wedi ymrwymo i "sicrhau bod y system newydd yn darparu amnewid enillion teg i bobl sy'n ennill llai na'r gyfradd bresennol o dâl salwch statudol."

Gofynnodd ein hymgynghoriad *Cryfhau Tâl Salwch Statudol* i gyflogwyr, cyflogeion, undebau llafur, rhanddeiliaid ac aelodau'r cyhoedd beth ddylai'r ganran hon fod. Rydym yn ddiolchgar am yr holl ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad, a ystyriwyd gennym yn fanwl.

Rydym bellach yn bwriadu gosod y gyfradd ganrannol hon fel 80% o'r enillion wythnosol arferol, a fydd yn berthnasol lle mae 80% o enillion wythnosol arferol cyflogai yn llai na'r gyfradd unffurf. Caiff hyn ei osod yn y gyfraith drwy ddiwygiad gan y Llywodraeth i'r Bil Hawliau Cyflogaeth.

Mae'r Llywodraeth yn hyderus bod cyfradd o 80% yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng darparu sicrwydd ariannol sydd ei angen i gyflogeion, wrth gyfyngu ar gostau ychwanegol i fusnesau. Bydd cyfradd o 80% yn helpu i ddiogelu'r rhai sy'n cael incwm is rhag mynd i galedi ariannol a bydd yn galluogi pobl i gymryd yr amser i ffwrdd y mae angen iddynt wella. Gall hyn helpu i atal clefydau heintus rhag lledaenu, lleihau cyfradd gyffredinol absenoldeb salwch, lleihau presenoliaeth a sicrhau manteision cynhyrchiant i fusnesau a'r economi.

Mae'r newidiadau yn yr ymgynghoriad hwn yn berthnasol i Gymru, Lloegr a'r Alban. Mae Tâl Salwch Statudol (SSP) yn fater a drosglwyddir yng Ngogledd Iwerddon, fodd bynnag, yn dilyn ymgysylltiad helaeth â'r Adran Cymunedau, cytunodd y ddwy Lywodraeth i gyflwyno'r diwygiadau i ymestyn y newidiadau hyn i Ogledd Iwerddon, gan gynnwys y gyfradd ganrannol o 80%. Felly, yn amodol ar gymeradwyo Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gan Gynulliad Gogledd Iwerddon, caiff y broses o gydraddoli ei chynnal mewn perthynas â SSP. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Adran Cymunedau yng Ngogledd Iwerddon wrth i'r Bil fynd yn ei flaen.

Fel y nodir yn ein *Camau Nesaf i Wneud i Waith Dalu*, bydd y Cynllun Gwneud i Waith Dalu yn cael ei drafod fesul cam. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod y diwygiadau i gryfhau gwaith SSP yn ôl y bwriad, ac yn ystyried y materion penodol a godwyd mewn ymatebion i'r ymgynghoriad, y rhoddir sylw iddynt isod.

# Sut y gwnaethom ymgynghori

Er mwyn sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn cael cyfle i gyfrannu eu barn, gwnaethom gyhoeddi'r ymgynghoriad ar Gov.uk ar 21 Hydref 2024 a gwahoddwyd cyflogeion, cyflogwyr, rhanddeiliaid, sefydliadau cynrychioliadol ac undebau llafur, i ymateb a rhannu eu safbwyntiau. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch: roedd dogfennau safonol, HTML, Iaith Arwyddion Prydain (BSL), Hawdd ei Ddarllen a Chymraeg ar gael ar gov.uk. Gwnaethom gynnig copïau caled o'r cyhoeddiad llawn, BSL, Braille, Hawdd ei Ddarllen, Cymraeg a fersiynau print bras. Cafodd yr ymatebwyr gyfle i ddychwelyd eu hymatebion i'r ymgynghoriad trwy ffurflen ar-lein, post ac e-bost. Roedd yr ymgynghoriad ar agor am chwe wythnos a daeth i ben ar 4 Rhagfyr 2024. Cynhaliodd yr Adran Ddadansoddiad Cydraddoldeb o'r cynigion i gryfhau SSP (dileu'r cyfnod aros ac ymestyn cymhwysedd i'r rhai sy'n ennill o dan y Terfyn Enillion Isaf) a gyhoeddwyd hefyd mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch.

Bydd y newidiadau a gyflwynwyd yn y Bil Hawliau Cyflogaeth yn cyflwyno cyfradd newydd o SSP. O dan y gyfradd newydd hon, bydd cyflogeion naill ai'n cael canran benodol o'u henillion wythnosol neu gyfradd safonol bresennol SSP, p'un bynnag yw'r isaf. Gofynnodd yr ymgynghoriad ar ba lefel y dylid gosod y gyfradd ganrannol hon. Fodd bynnag, ni wnaethom ymgynghori ar yr hyn y dylai'r gyfradd safonol SSP (ar hyn o bryd £116.75 yr wythnos, gan gynyddu i £118.75 ym mis Ebrill 2025 yn amodol ar gymeradwyaeth seneddol). Anogwyd ymatebwyr i rannu eu rhesymeg dros eu cyfradd amnewid enillion a awgrymwyd fel rhan o'u hymateb. Cyfarfu Gweinidogion a swyddogion â rhanddeiliaid yn ystod y ffenestr ymgynghori, er mwn hyrwyddo ymgysylltiad â'r ymgynghoriad a thrafod y cwestiynau ymhellach. Roedd y grwpiau rhanddeiliaid hyn yn cynnwys busnesau, cynrychiolwyr cyflogwyr, undebau llafur, cyrff proffesiynol, melinau trafod, ac elusennau iechyd ac anabledd.

Cafwyd cyfanswm o 1,797 o ymatebion. Rydym yn cydnabod y paratowyd rhai ymatebion a gafwyd yn dilyn trafodaeth fanwl a chydweithio o fewn rhwydweithiau ymatebwyr eu hunain ac felly roedd rhai ymatebion yn ddyblyg. O'r 1,797 o ymatebion a gafwyd, roedd 530 yn unigryw, ac awgrymodd 499 o ymatebion gyfradd ganran. Ymatebion unigryw yw'r rhai nad oeddent yn ymatebion ysgrifenedig o union yr un fath.

Gofynnwyd i unigolion ym mha rhinwedd yr oeddent yn ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn, neu'n cynrychioli, busnesau neu gyflogwyr; fodd bynnag, cafwyd ymatebion hefyd gan aelodau'r cyhoedd a/neu gyflogeion, nifer o undebau llafur, elusennau, yn ogystal ag ymatebwyr a nododd fel mathau eraill o randdeiliad.

O'r holl ymatebion unigryw a gafwyd (530):

- Roedd 55% wedi ymateb ar ran busnesau a/neu gyflogwyr
- Roedd 30% wedi ymateb ar ran y cyhoedd a/neu gyflogeion
- Roedd y 15% arall o'r ymatebwyr yn cynnwys undebau llafur, elusennau neu ymatebwyr eraill.

Rydym yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at yr ymgynghoriad.


# Canran yr enillion y dylid eu talu hyd at gyfradd wythnosol unffurf Tâl Salwch Statudol

Mae Tâl Salwch Statudol yn darparu isafswm cymorth pan fydd angen i gyflogeion gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch. Trwy ddileu'r Terfyn Enillion Isaf fel amod hawl ar gyfer Tâl Salwch Statudol, mae'r Llywodraeth yn cyflenwi ymrwymiad y maniffesto i sicrhau bod y rhwyd ddiogelwch o dâl salwch ar gael i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Bydd gan bob cyflogai cymwys fynediad at SSP a'r tawelwch meddwl a ddaw yn sgil hyn, waeth beth fo'u hincwm. Bydd busnesau'n elwa o gael cyflogeion sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu cyflogwyr, gan helpu i leihau presenoliaeth a chynyddu cynhyrchiant a chadw staff.

Bydd y mesurau SSP yn y Bil Hawliau Cyflogaeth yn ehangu cymhwysedd i'r hyd at 1.3 miliwn o gyflogeion nad oes ganddynt hawl ar hyn o bryd a byddant yn dileu'r cyfnod aros fel bod SSP yn cael ei dalu o'r diwrnod cyntaf o waith a gollir oherwydd salwch. Mae'r mesurau hyn yn flaenoriaethau i'r Llywodraeth hon fel rhan o'n *Bargen Newydd ar gyfer Pobl sy'n Gweithio* a chyflawni ein cenadaethau i sbarduno twf economaidd, chwalu rhwystrau i gyfleoedd ac adeiladu GIG sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn, yn ei dro, yn codi safonau byw ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig, fel bod gan bobl sy'n gweithio fwy o arian yn eu pocedi. Mae'n bwysig bod y gyfradd ganrannol yn cydbwyso'r angen i roi sicrwydd ariannol i gyflogeion, tra'n sicrhau bod cyflogeion yn well eu byd yn y gwaith nag y maent yn sâl, a chyfyngu'r costau i fusnesau. Yn dilyn yr ymgynghoriad a'r dadansoddiad manwl o'r ymatebion, rydym yn bwriadu nodi'r gyfradd ganrannol yn y gyfraith trwy ddiwygiad i'r Bil Hawliau Cyflogaeth gan y Llywodraeth.

# Beth ddylai'r Gyfradd Ganrannol fod

**Ffigur 1: Dosbarthiad ymateb o gyfradd canran a awgrymir yn ôl math o ymatebydd**




Dengys y siart uchod dosbarthiad y 499 o ymatebion a gafwyd oedd yn awgrymu cyfradd ganran.


Ymrwymodd y Llywodraeth i ddarparu amnewid enillion teg i'r rhai sy'n ennill llai na'r gyfradd unffurf o SSP. Bydd gan berson hawl i'r gyfradd isaf wythnosol bresennol o SSP ("y gyfradd unffurf") neu ganran ddiffiniedig o'u henillion wythnosol arferol ("y gyfradd ganrannol"). Gofynnodd yr ymgynghoriad beth ddylai'r gyfradd ganrannol fod.

Dengys nifer ac ymdeimlad yr ymatebion a gafwyd y rôl bwysig y mae SSP yn ei chwarae yn ein cymunedau ac yn ein heconomi. Er bod ymatebion i'r ymgynghoriad yn gymysg, nododd cyflogeion, cyflogwyr, cynrychiolwyr busnes ac ymatebwyr undebau llafur eu barn ar yr effeithiau a'r goblygiadau posibl y bydd y cynigion yn eu cael, gyda 499 o'r ymatebion yn cyflwyno cyfradd ganrannol awgrymedig.

Nid oedd consensws clir ymhlith rhanddeiliaid; roedd cyflogwyr yn ffafrio cyfradd canran is tra bod cyflogeion yn fwy tebygol o awgrymu cyfradd canran uwch. Deallwn fod gan gyflogwyr a chyflogeion anghenion a blaenoriaethau gwahanol, ac yr un mor bwysig, wrth ystyried beth sy'n gyfradd amnewid teg am SSP. Rydym wedi ystyried y rhain ac wedi defnyddio'r ymgynghoriad hwn i adeiladu ein dealltwriaeth o sut y gallai'r newidiadau hyn effeithio ar gyflogwyr a sut maent yn cefnogi cyflogeion. Rydym wedi ymrwymo i barhau i wrando a dysgu wrth i ni weithredu'r newidiadau hyn.

# Effaith ar Gyflogwyr

**Ffigur 2: Dosbarthiad ymatebion cynrychiolwyr Busnes/Cyflogwyr o ran cyfraddau canrannol a awgrymir**




Dengys y siart uchod dosbarthiad y 275 o ymatebion a gafwyd gan gyflogwyr a grwpiau cynrychioladol cyflogwyr (y cyfeirir atynt fel 'cyflogwyr' wedi hyn).

50% oedd y ganran ganolrifol a gyflwynwyd ar draws pob cyflogwr, mae hyn yn is na'r gyfradd ganolrifol gyffredinol am yr holl ymatebwyr. Mynegodd cyflogwyr bryderon y byddai cyfradd uwch yn lleihau cymhellion i gyflogeion yr effeithir arnynt o ran dychwelyd i'r gwaith cyn gynted â phosibl yn dilyn cyfnodau o absenoldeb, a fyddai'n arwain at gyfraddau uwch o absenoldeb. Mae'r Llywodraeth yn credu ei bod yn bwysig bod y gyfradd ganrannol yn darparu digon o sicrwydd ariannol i'n cyflogeion sy'n ennill y cyflogau isaf. Fodd bynnag, mae'n iawn, fel y dywedodd llawer o gyflogwyr, nad yw'r gyfradd ganrannol mor uchel ag annog cyflogeion i beidio â dychwelyd i'r gwaith pan fyddant yn gallu gwneud hynny. Fel y'u hystyriwyd yn yr asesiad effaith cyhoeddedig, gall y newidiadau hyn arwain at fwy o absenoldeb, fodd bynnag, os yw cyflogwyr yn meithrin y diwylliant cywir a bod ganddynt y polisïau a'r arferion cywir ar waith, gellir lliniaru risgiau o absenoldeb anaddas. Mae gwaith da yn dda i iechyd corfforol a meddyliol, a dylai'r gyfradd ganrannol adlewyrchu ein nod cyffredinol i helpu pawb i gael gwaith a symud ymlaen mewn gwaith.

Fel sy'n amlwg yn Ffigur 2, ar ôl grwpio'r ymatebion i mewn i fandiau, cymysg oedd dosbarthiad yr ymatebion ar draws busnesau a sefydliadau sy'n cynrychioli cyflogwyr, heb unrhyw gonsensws cryf. Awgrymodd dros draean o gyflogwyr gyfradd ganrannol dros 60%, gan dynnu sylw at bwysigrwydd darparu cymorth ariannol i'w cyflogeion. Ar ben arall y sbectrwm, awgrymodd 23% o gyflogwyr gyfradd ganrannol 0%. Drwy'r *Cynllun Gwneud i Waith Dalu* a'r ymgynghoriad SSP, rydym yn nodi ein hymrwymiad i sefydlu amnewid enillion teg. Er ein bod yn cydnabod bod rhai ymatebwyr wedi lleisio pryderon o ran dileu'r Terfyn Enillion Isaf, sy'n cael ei awgrymu gan yr ymatebion hyn, ni fyddai hon yn gyfradd amnewid deg nac yn adlewyrchu'r ymrwymiad maniffesto y cafodd y Llywodraeth hon ei hethol i'w gyflenwi.

Clywsom ystod o safbwyntiau gan gyflogwyr: tynnodd rhai sylw at well sicrwydd ariannol y bydd y newidiadau yn ei gynnig i'r cyflogeion sy'n ennill y cyflogau isaf, tra bod eraill wedi codi pryderon am y costau cynyddol i fusnesau a allai ddod yn sgil y newidiadau. Dywedodd un ymatebydd cyflogwr wrthym

'*Mae'n bwysig cydbwyso'r gofyniad unigol â chynaliadwyedd busnes'.* Mae'r Llywodraeth yn gwybod bod y rhan fwyaf o gyflogwyr eisiau gwneud yn iawn gan eu cyflogeion ac yn awyddus i'w cefnogi pan fyddant yn sâl. Mae cyflogwyr sy'n gyfrifol am dalu tâl salwch yn helpu i gynnal y cysylltiad cryf hwnnw rhwng y gweithle a'r cyflogai. Fel y gwelir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cyhoeddedig, er ein bod yn deall y bydd cyflogwyr yn wynebu cost ychwanegol uniongyrchol, mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan lefelau uwch o gynhyrchiant trwy alluogi cyflogeion i gymryd yr amser i ffwrdd o'r gwaith sydd ei angen arnynt i wella o afiechydon. Fel y cyfeirir ato yn ein hasesiad effaith, disgwylir i hyn, yn ei dro, leihau nifer y cyflogeion sydd angen cymryd amser i ffwrdd gyda salwch heintus sy'n lleihau cyfraddau heintio, gan helpu i leddfu'r pwysau ar ein system iechyd. Fel y manylwyd yn ein Hasesiad Effaith Rheoleiddiol, mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd o ran costau i fusnesau yn ein mesurau i gryfhau SSP yn ganlyniad i ddileu'r cyfnod aros; mae dileu'r Terfyn Enillion Isaf yn gyfran llawer llai o'r cynnydd hwn. Mae'r gwahaniaeth rhwng yr enghreifftiau 60% ac 80% a ddarparwyd gennym yn yr ymgynghoriad yn cyfateb i oddeutu £30 miliwn ar draws y farchnad lafur gyfan, sef tua £1 y cyflogai neu lai na 0.01% o gyfanswm y gwariant ar gyflogau bob blwyddyn gan fusnesau.

Roedd nifer fach o ymatebion hefyd yn pryderu am y costau gweinyddol ychwanegol sy'n gysylltiedig â chymhlethdod cyfrifo'r tâl salwch cywir i'w dalu i bob cyflogai. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y pryder hwn ac mae eisoes yn gweithio gyda chyflogeion proffesiynol y gyflogres a datblygwyr meddalwedd i lywio a lliniaru unrhyw feichiau neu gostau gweinyddol y gallai busnesau eu hwynebu pan fydd y newidiadau hyn yn cael eu gweithredu.


Roedd tua chwarter y cyflogwyr a chynrychiolwyr cyflogwyr yn poeni am yr effaith anghymesur ar gostau i gyflogwyr bach a chanolig y bydd y newidiadau i SSP yn eu cael – yn enwedig ochr yn ochr â chostau cyflogaeth newydd eraill. O ystyried bod busnesau bach a chanolig yn fwy tebygol o dalu tâl salwch ar gyfradd SSP, fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, rydym yn cydnabod eu bod yn debygol o wynebu cyfran uwch o'r codiadau o ran costau. Roedd y cyflogwyr hyn yn arbennig o bryderus o ran sut y gallent fforddio'r newidiadau arfaethedig ochr yn ochr â'r angen i ariannu'r yswiriant angenrheidiol i ddisodli cyflogeion nad oeddent yn gallu gweithio. Er ein bod yn cydnabod ei bod yn debygol y bydd costau ychwanegol bach, yn enwedig i gyflogwyr bach a chanolig, caiff y rhain eu gwrthbwyso'n debygol gan y manteision y bydd y newidiadau yn eu cynnig wrth leihau presenoliaeth ac felly hybu cynhyrchiant ac effeithlonrwydd.

Gwyddom fod llawer o gyflogwyr yn croesawu eglurder ac arweiniad i'w galluogi i gefnogi eu cyflogeion pan fydd angen iddynt gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i wella ar ôl salwch neu reoli eu cyflyrau iechyd. Ar hyn o bryd mae'r Adran yn cynnig gwasanaeth gwybodaeth ddigidol, *Gwasanaeth Cymorth gydag Iechyd ac Anabledd Cyflogeion*, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â busnesau bach a sefydliadau anabledd, gan ddarparu arweiniad wedi'i deilwra i gyflogwyr gefnogi eu cyflogeion i aros mewn gwaith. Mae hefyd yn helpu cyflogwyr i ddeall eu rhwymedigaethau cyfreithiol ac ymddwyn yn gyfreithlon. Mae canllawiau i gyflogwyr a chyflogeion o ran hawl, rheolau a chymhwysedd SSP, sy'n cynghori cyflogwyr ar sut mae'r system SSP yn gweithio a pha gamau y dylai cyflogwyr eu cymryd hefyd yn cael eu darparu ar Gov.uk. Gan ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gawsom, bydd y Llywodraeth yn ymgysylltu â chyflogwyr – mawr a bach – yn ogystal â chyrff cyflogwyr a chynrychiolwyr cyflogeion a chyrff proffesiynol, i ddeall yr heriau ymhellach, yn enwedig a wynebir gan fusnesau bach a micro, a beth yn fwy y gellir ei wneud i'w cefnogi i roi'r newidiadau hyn ar waith.

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu partneriaeth newydd rhwng y Llywodraeth a busnes, i hybu twf a gwella cyfleoedd ar draws ein heconomi. Dyna pam y gwnaethom gyhoeddi *Cadw Prydain i Weithio,* adolygiad annibynnol dan arweiniad Syr Charlie Mayfield. Bydd yr adolygiad yn ceisio archwilio rôl cyflogwyr y DU o ran lleihau anweithgarwch sy'n gysylltiedig ag iechyd a hyrwyddo gweithleoedd iach a chynhwysol. Mae hyn yn rhan o ddarlun llawer mwy, ochr yn ochr â'n *Cynllun Gwneud i Waith Dalu,* ac mae'n dangos ein hymrwymiad i ddysgu o arbenigedd cyflogwyr a chydweithio i wella safonau byw i'n pobl.

# Effaith ar Gyflogeion

**Ffigur 3: Dosbarthiad ymatebion cyflogai/aelod o'r cyhoedd o ran cyfraddau canrannol a awgrymir**




Mae'r siart uchod yn seiliedig ar 157 o ymatebion a gafwyd gan gyflogeion/aelodau o'r cyhoedd (y cyfeirir atynt yma fel 'cyflogeion' wedi hyn).

Ar y cyfan roedd cyflogeion yn gefnogol o ganran uchel, gydag ymateb canolrif o 90%. Dywedodd cyflogeion wrthym y byddai'r newidiadau i gryfhau SSP yn cynyddu diogelwch ariannol ac yn lleihau straen ariannol i'r rhai sy'n ennill isaf mewn cymdeithas. Adlewyrchodd nifer sylweddol o'r ymatebion hyn ar y ffaith bod rhwymedigaethau ariannol y cyflogeion hyn yn parhau drwy gydol cyfnodau o salwch, ac felly mae'n rhaid i'r gyfradd ganrannol dalu eu costau byw yn ddigonol. Dywedodd un cyflogai y byddai 'swm digonol o incwm' pan fydd cyflogeion yn sâl yn sicrhau 'bod pobl yn gwella yn hytrach na pheidio â bwyta'n dda neu ddioddef heriau iechyd meddwl oherwydd straen diffyg incwm ar adeg o salwch'. Yn aml, roedd pryder na fyddai cyfradd canran is yn ddigon i fyw arni ac y gallai wthio'r enillwyr isaf, yn enwedig y rhai sy'n ennill ychydig yn uwch na chyfradd unffurf SSP, i dlodi. Dywedodd un undeb llafur neu sefydliad cynrychioliadol: 'Ni ddylai pobl wynebu'r dewis rhwng gwella o salwch a bodloni ymrwymiadau ariannol sylfaenol.'

Fodd bynnag, roedd anghytundeb o ran pa gyfradd canran fyddai'n deg. Awgrymodd 44% o'r cyflogeion y dylid gosod y gyfradd ganrannol ar 100%, gan ddadlau y dylid talu cyflog cyflogai yn llawn yn ystod y 28 wythnos y maent yn gymwys i gael SSP. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn cydnabod pryderon rhai cyflogwyr na fydd gosod 100% fel yr isafswm statudol yn rhoi cymhelliant ariannol i'w cyflogeion ddychwelyd i'r gwaith pan fyddant yn gallu gwneud hynny ac felly gallai annog absenoldeb. Mewn gwirionedd, wrth ddiogelu cyfradd canran sy'n llai na 100%, dywedodd un cyflogai: 'Gan nad [yw'n] 100% o'u cyflog, dylai fod yn gymhelliant i bobl i ddod yn ôl i'r gwaith, ennill fel arfer cyn gynted â phosibl'. Dylid nodi y gall cyflogwyr dalu mwy na'r isafswm statudol, ac fel y clywsom o ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybod o ddata'r arolwg, mae llawer eisoes yn dewis gwneud hynny.

Ystyriodd cyflogeion effeithiau iechyd cadarnhaol y newidiadau i SSP, gan nodi y byddai cyfradd canran uwch yn lleihau straen ariannol i gyflogeion ar absenoldeb salwch. Dywedodd un undeb llafur neu sefydliad cynrychioladol arall wrthym fod y newidiadau hyn: 'yn cynrychioli cam cryf a chadarnhaol

ymlaen i ddiogelu'r rhai sydd ar incwm isel sy'n dioddef afiechyd yn y gwaith'. Amlygodd yr ymatebwyr hyn y gallai straen ariannol waethygu materion iechyd ymhellach, ymestyn salwch ac oedi wrth wella. Dywedodd rhai cyflogeion wrthym y byddai cyfradd canran uwch hefyd yn lleihau presenoldiaeth. Roedd yr ymatebion hefyd yn adlewyrchu y gallai cyfradd canran uwch leihau nifer y cyflogeion sy'n cael cymorth lles tra ar absenoldeb salwch. Roedd ymatebion eraill yn adlewyrchu y gallai'r newidiadau o bosibl leddfu'r pwysau ar y GIG drwy leihau nifer y cyflogeion sy'n teimlo eu bod yn cael eu gorfodi i ddychwelyd i'r gwaith cyn iddynt wella'n llwyr ac felly lleihau'r risg o waethygu afiechydon neu ledaenu clefydau heintus. Mae'r Llywodraeth yn cytuno y bydd sicrhau bod yr enillwyr isaf yn cael cyfradd deg o amnewid enillion pan nad ydynt yn ddigon iach i weithio yn rhoi tawelwch meddwl iddynt fod angen iddynt wella. Fel y cyfeirir ato yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, bydd hyn nid yn unig yn galluogi cyflogeion ddychwelyd i'r gwaith yn gynt ond hefyd yn hybu cynhyrchiant.

Roedd rhai ymatebion hefyd yn codi pryderon ynghylch y potensial i gyflogeion sy'n gweithio nifer o swyddi ennill mwy nag eraill o ganlyniad i ddileu'r Terfyn Enillion Isaf a'r cyfnod aros. Er enghraifft, gallai cyflogai sy'n gweithio 10 awr yr wythnos i dri chwmni gwahanol gael deirgwaith yn fwy o SSP na gyflogai sy'n gweithio 30 awr i un cwmni. Mae hyn eisoes yn risg yn y system bresennol ac er bod potensial i rai cyflogeion elwa fel hyn, nid yw'r mesurau yr ydym yn eu cyflwyno yn newid y rheolau SSP cyfredol yn hyn o beth. Byddai unrhyw system sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr ofyn am enillion eraill a'u hystyried wrth gyfrifo hawl cyflogeion i dâl salwch yn anaddas i'r Llywodraeth ei orfodi, a chredwn y byddai'n rhy gymhleth i'w weinyddu, a byddai'n debygol o roi llawer mwy o faich ar fusnesau.

Nododd nifer fach o ymatebwyr orgynrychiolaeth o fenywod a grwpiau lleiafrifol mewn rolau cyflog is, ac wrth wneud hynny, nodwyd a chroesawodd y gwelliannau y byddai cyfradd canran enillion uwch yn eu gwneud i sefyllfa economaidd y cyflogeion hyn. Nodwyd yr agwedd hon yn bennaf gan undebau llafur neu randdeiliaid eraill â diddordeb ac mae'n adlewyrchu canfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Fodd bynnag, mynegodd nifer fach o ymatebion bryder o ran cyflogeion sy'n ennill ychydig yn uwch na'r Terfyn Enillion Isaf ac a fyddai bellach â hawl i ganran o'u henillion yn hytrach na'r gyfradd unffurf, gan olygu eu bod yn cael llai o SSP nag y byddent o dan y system bresennol.

Ar ôl tynnu sylw at y risg bosibl hon yn yr ymgynghoriad, mae'r Llywodraeth wedi ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Awgrymodd rhai ymatebwyr system lle mae cyflogai yn cael ei dalu'r gyfradd ganrannol nes bod ei enillion yn cyrraedd y gyfradd unffurf, ac ar yr adeg honno byddai gan y cyflogai hawl i'r gyfradd unffurf. Cynigiwyd y system hon yng nghyd-destun y gyfradd gyfredol o SSP sef tua 95% o'r Terfyn Enillion Isaf. Fodd bynnag, mae hon yn ffenomen ddiweddar, gyda chyfradd SSP yn hanesyddol ychydig o dan 80% o'r Terfyn Enillion Isaf nes i'r olaf gael ei rewi yn 2021, 2023 a 2024. Yn fwy cyffredinol, nid ydym yn ystyried bod hon yn system deg, gan y byddai'n arwain at rai cyflogeion yn cael cyfradd amnewid enillion uwch (hyd at 100%) na'r rhai sy'n ennill llai nag y maent. Byddai newid o'r fath yn arwain at 'swmp' annheg mewn hawl, gydag un geiniog mewn enillion wythnosol cyfartalog yn gwneud bron i £24 o wahaniaeth yn yr hawl, yn cynyddu'r risg ar gyfer anghydfodau dros hawl ac yn annog cyflogwyr i gadw gweithwyr rhan-amser yn ennill llai na swm penodol.Ni fyddai system o'r fath yn cyd-fynd â thaliadau statudol eraill, sy'n gweithio ar sail cyfradd ganrannol 'is',ac felly y bydd yn fwy cymhleth i gyflogwyr. Byddai hefyd yn golygu, bob tro y caiff SSP ei uwchraddio, y gallai'r rhai 'gwarchodedig' golli allan.

## Safbwynt y Llywodraeth ar y gyfradd ganrannol

Mae'n bwysig bod y gyfradd ganrannol yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng darparu'r sicrwydd ariannol sydd ei angen ar ein henillwyr isaf, cadw'r cymhellion i ddychwelyd i'r gwaith pan fo'n addas, a chyfyngu'r costau i fusnesau. Gan ystyried yr amrywiaeth o safbwyntiau a'r mewnwelediadau gwerthfawr a gawsom, bydd y Llywodraeth yn cyflwyno diwygiad i'r Bil Hawliau Cyflogaeth, i osod y gyfradd ganrannol ar **80%.** Rydym yn hyderus bod hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad orau, fel y nodir yn y *Cynllun Gwneud i Waith Dalu*, 'sicrhau bod y system newydd yn darparu amnewid enillion teg i bobl sy'n ennill llai na'r gyfradd bresennol o dâl salwch statudol.'

Mae gosod y gyfradd fel yr isaf o 80% o enillion wythnosol cyfartalog neu'r gyfradd unffurf yn cydbwyso anghenion cyflogeion a chyflogwyr. Bydd yn darparu digon o sicrwydd ariannol i gyflogeion ar gyflogau is

er mwyn helpu i'w diogelu rhag teimlo eu bod yn cael eu gorfodi i fynd i'r gwaith pan fyddant yn sâl – lleihau presenoliaeth a lledaeniad clefydau heintus, a thrwy hynny, gynyddu cynhyrchiant cyffredinol a helpu i ddiogelu ein system iechyd. Rydym hefyd wedi gwrando ar bryderon cyflogwyr am beido ag annog rhai cyflogeion i ddychwelyd i'r gwaith pan fyddant yn gallu. Barn y Llywodraeth yw y dylai cyfradd o 80%, fel y lleiafswm statudol, barhau i annog cyflogeion ddychwelyd i'r gwaith, a'u cyflog llawn, pan fo'n bosibl. Gall cyflogwyr hefyd ddewis talu mwy drwy dâl salwch galwedigaethol.

Mae'r Llywodraeth o'r farn mai cyfradd o 80% yw'r gyfradd gywir i gyflogwyr allu darparu cymorth ariannol i gyflogeion cyflog isel pan fyddant yn sâl, wrth reoli costau a chynyddu cynhyrchiant eu gweithlu. Gwyddom fod gwaith da yn dda i iechyd, a gall caniatáu i bobl gymryd yr amser i ffwrdd sydd ei angen arnynt arwain at lefelau uwch o ran cadw staff, cynyddu cynhyrchiant a gweithle mwy cynhwysol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod rhywfaint o bryder am gost cyfradd uwch. Mae cyfradd o 80% yn gynnydd cymharol isel mewn costau i gyflogwyr, yn enwedig o gymharu â chyfradd is fel 60%, ond bydd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar gyflogeion, yn enwedig menywod a phobl ifanc. Er enghraifft, ni fyddai cyflogai sy'n ennill £110 yr wythnos yn cael Tâl Salwch Statudol ar hyn o bryd. O ganlyniad i'r diwygiadau, byddent yn cael Tâl Salwch Statudol o £88 yr wythnos ar gyfradd o 80%, o'i gymharu â £66 yr wythnos ar gyfradd o 60%. Byddai cyfradd o 60% yn costio £1.04 biliwn i gyflogwyr (£37 y cyflogai) y flwyddyn, a byddai 80% yn costio £1.07 biliwn i gyflogwyr (£38 y cyflogai). Felly, mae'r cyfanswm a arbedir gan fusnesau ar 60% (o'i gymharu â chyfradd 80%) oddeutu £10 miliwn i £30 miliwn y flwyddyn. Mae hyn yn £1 gwahaniaeth fesul cyflogai y flwyddyn. Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli cyfanswm cost flynyddol Tâl Salwch Statudol i gyflogwyr, gan gynnwys costau dileu diwrnodau aros a dileu'r Terfyn Enillion Isaf. Mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd mewn costau i fusnesau oherwydd y diwygiadau SSP o ganlyniad i ddileu diwrnodau aros, gyda dileu'r Terfyn Enillion Isaf yn gyfran llawer llai o'r cynnydd mewn costau. Gan nodi effaith y mesurau hyn ar y cyd ar fusnes, mae'r Llywodraeth o'r farn bod cyfradd o 80% yn taro'r cydbwysedd cywir hwnnw rhwng y safbwyntiau a fynegir yn ymgynghoriad cyflogeion a'u cynrychiolwyr a'u cyflogwyr, tra'n darparu cyfradd ganrannol deg i'r rhai sy'n ennill isaf.

Mae'r Llywodraeth yn nodi pryderon o ran nifer fach o gyflogeion sy'n ennill ychydig yn uwch na'r Terfyn Enillion Isaf ac a allai gael llai o SSP nag y byddent o dan y system bresennol. Fodd bynnag, drwy ddiddymu'r Cyfnod Aros, mae unrhyw golled bosibl yn cael ei gwrthbwyso am y rhan fwyaf o absenoldebau byrdymor. Er enghraifft, byddai gan gyflogai sy'n ennill £125 ar gyfartaledd ac sy'n gweithio dau ddiwrnod yr wythnos (tua 5 awr y dydd ar Gyflog Byw Cenedlaethol) hawl cronnus i fwy o SSP am 9 wythnos gyntaf absenoldeb salwch. Mae ein gwaith modelu mewnol yn awgrymu na fydd cyflogeion, yn ystod eu habsenoldeb salwch, yn waeth eu byd o ganlyniad i'r newidiadau hyn. Mae hyn yn seiliedig ar fodel sy'n efelychu enillion cyflogeion a phatrymau absenoldeb salwch i amcangyfrif hawl SSP cyn ac ar ôl diwygio.

Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn pryderu y gallai cyfradd uchel i bobl sydd ar gyflogau isel sy'n gweithio ychydig oriau, ynghyd â chostau teithio a chostau dyddiol eraill, neu y mae eu henillion yn cael eu 'hychwanegu ato' gan Gredyd Cynhwysol, wneud mynd i ffwrdd yn sâl, neu aros i ffwrdd yn sâl, yn fwy hyfyw yn ariannol na mynd i'r gwaith. Er y gall hyn ddigwydd mewn rhai amgylchiadau penodol, nid oes gan hyd at 1.3 miliwn o gyflogeion hawl i SSP ar hyn o bryd, ac mae'r Llywodraeth yn credu ei bod yn well diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas na risg nad yw'r rhai sy'n ennill yr isaf yn cael y rhwyd ddiogelwch o dâl salwch sydd ar gael i gyflogeion eraill.

Mae cryfhau SSP yn rhan bwysig o ddarlun llawer mwy. Fel y nodir yn ein *Camau Nesaf i Wneud i Waith Dalu,* mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda chyflogwyr a chyflogeion i uwchraddio'r byd gwaith, gwella safonau byw a rhoi mwy o arian ym mhocedi pobl sy'n gweithio. Mae ein papur gwyn *Cael Prydain i Weithio* yn dyst i'n huchelgais i fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd a hyrwyddo marchnad lafur gwbl gynhwysol a chefnogol sy'n gweithio i gyflogeion a chyflogwyr. Felly, mae'r Llywodraeth yn credu bod cyfradd o 80% yn cyd-fynd â'r ymrwymiadau hyn orau i uwchraddio byd gwaith a sicrhau newid sylweddol o ran twf a safonau byw.

# Materion eraill a godwyd gan ymatebwyr

Bydd y mesurau yn y Bil Hawliau Cyflogaeth yn sicrhau bod gan bob cyflogai cymwys fynediad at SSP waeth beth fo'u lefel incwm, a'r tawelwch meddwl a ddaw yn sgil hyn pan fydd angen iddynt gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch. Bydd hyn yn helpu i greu amgylchedd gwaith diogel, cefnogol, lleihau presenoliaeth a chynyddu cynhyrchiant i fusnesau ledled y wlad. Er nad ymgynghorir yn benodol yn yr ymgynghoriad *Cryfhau Tâl Salwch Statudol*, manteisiodd nifer sylweddol o ymatebwyr ar y cyfle i dynnu sylw at yr angen i ddiwygio SSP ymhellach er mwyn i'r Llywodraeth ei ystyried. Mae'r ymatebion a grybwyllir amlaf sy'n ymwneud â diwygio pellach yn cael eu harchwilio yn fanylach isod. Roeddem yn ddiolchgar am yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, sy'n amhrisiadwy i lywio datblygiad polisi yn y dyfodol.

## Pryder am ddileu'r cyfnod aros

Rhannodd rhai o'r ymatebion gan gyflogwyr unigol eu pryder am y gofyniad i dalu SSP o ddiwrnod cyntaf absenoldeb salwch cyflogai, yn hytrach na'r pedwerydd diwrnod. Mynegodd cyflogwyr bryder y byddai'r newidiadau hyn yn cynyddu cyfraddau absenoldeb yn ogystal â chostau absenoldeb salwch i'w busnes. Roedd rhai o'r ymatebion hyn yn cynnwys awgrymiadau i newid hyd hunanardystio am gyfnodau o absenoldeb salwch (7 diwrnod ar hyn o bryd), neu ddisodli'r cyfnod aros gyda system haenog lle mae canran yr incwm a gafwyd yn cynyddu ar ddiwedd y cyfnod hunanardystio.

Credai'r Llywodraeth ei fod yn bwysig galluogi miliynau o gyflogeion i gael mynediad at rwyd ddiogelwch SSP ar eu diwrnod cyntaf o absenoldeb salwch. Mae hyn yn golygu y dylai cyflogeion deimlo'n well eu bod yn gallu cymryd yr amser sydd ei angen arnynt i wella ar ôl salwch byrdymor, heb gorfod ymdrechu drwy waith ac yn aml yn lledaenu clefydau heintus fel ffliw. Yn yr un modd, dylai cyflogeion sydd â chyflyrau hirdymor neu amrywiol, deimlo eu bod yn gallu cymryd diwrnod o absenoldeb salwch i reoli eu cyflwr i'w atal rhag gwaethygu. Bydd hyn, yn ei dro, yn lleihau presenoliaeth ac yn helpu i gynyddu cynhyrchiant cyffredinol a gall gyfrannu at ddiwylliant gwaith cadarnhaol sy'n helpu recriwtio a chadw staff yn well. Bydd dileu'r cyfnod aros hefyd yn galluogi dychwelyd i'r gwaith fesul cam yn well, a gall, fel y gwelir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, fod yn declyn effeithiol o ran helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith ac aros mewn gwaith, gan helpu i leihau'r llif i anweithgarwch economaidd a lleihau costau absenoldeb salwch ar fusnesau. Nid oes gan y Llywodraeth unrhyw gynlluniau i leihau hyd presennol hunanardystio (7 diwrnod) am gyfnodau o absenoldeb salwch.

## Cymorth i Fusnesau

Roedd ymatebwyr a gododd bryderon am yr effaith ariannol y bydd newidiadau i SSP yn ei chael i fusnesau yn aml yn galw am gymorth ariannol i allu eu cyflenwi, fel ad-daliad neu adfer y Cynllun Trothwy Canran (a gafodd ei ddiddymu yn 2014). Roedd yr ymatebion hyn yn aml yn galw am ad-daliad yn seiliedig ar faint busnes, gan gyfeirio at yr effaith y gallai'r newidiadau ei chael i ymylon elw sydd eisoes yn gyfyngedig i gyflogwyr bach a chanolig, yn enwedig y gost neu'r anallu i ddisodli cyflogeion am absenoldebau byrdymor.

Canfu adolygiad o'r Cynllun Trothwy Canran blaenorol ei fod yn gymhleth ac yn ddrud i'w weinyddu, yn cael ei danddefnyddio gan fusnesau bach ac nad oedd yn annog cyflogwyr i gymryd camau i gefnogi eu cyflogeion i leihau absenoldeb salwch. Mae cyflogwyr sy'n gyfrifol am dalu tâl salwch yn helpu i gynnal y cysylltiad cryf rhwng y gweithle a'r cyflogai ac anogir cyflogwyr i gefnogi cyflogeion ddychwelyd i'r gwaith

pan fyddant yn gallu. Mae'r Llywodraeth yn deall nad oes gan gyflogwyr, yn enwedig busnesau bach, yr adnoddau ariannol na'r arbenigedd yn aml i fuddsoddi mewn mesurau arfer gorau a hoffai gael mwy o gymorth i weithredu'r newidiadau i SSP a rheoli absenoldeb salwch yn well yn y gweithle. Fel yr amlinellwyd uchod, rydym am barhau i weithio gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid i archwilio'r canllawiau y gallai fod eu hangen ar fusnesau i gyflenwi eu rhwymedigaethau tâl salwch statudol.

## Galwadau i gynyddu cyfradd SSP

Roedd nifer fawr o ymatebion yn galw am gynnydd i'r gyfradd, naill ai i gyfradd benodol i gyd-fynd â thaliadau statudol eraill (fel Tâl Mamolaeth Statudol), yn cyd-fynd â'r Cyflog Byw Cenedlaethol, neu drwy ddileu'r gyfradd unffurf a thalu SSP fel canran o gyflog cyflogai. Cawsom 1257 o ymatebion dyblyg a oedd yn croesawu dileu'r cyfnod aros a'r Terfyn Enillion Isaf, ond nid oedd yn nodi cyfradd canran benodol. Roedd yr ymatebion hyn, ynghyd ag eraill, yn galw am gynnydd o ran cyfradd unffurf Tâl Salwch Statudol i gyd-fynd â chyflog y cyflogai neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol.

Bydd y newidiadau a wnawn i SSP o fudd i filiynau o gyflogeion. Bydd gan bob cyflogai yr hawl i gael cymorth ariannol pan fyddant i ffwrdd o'r gwaith yn sâl drwy Dâl Salwch Statudol. Bydd unigolion yn cael tâl salwch o'u diwrnod cyntaf o absenoldeb, gan roi gwell cymorth a sicrwydd ariannol iddynt. Bydd dileu'r Terfyn Enillion Isaf yn dod â hyd at 1.3 miliwn o gyflogeion, nad oeddent wedi cael unrhyw gymorth ariannol gan eu cyflogwr o'r blaen ac nad oeddent yn gallu gweithio oherwydd salwch i fod yn gymwys ar gyfer SSP.

Gall cyflogwyr ddewis mynd ymhellach na'u gofynion statudol a darparu mwy o gymorth ariannol trwy dâl salwch galwedigaethol i'w cyflogeion. Mae tua 60% o'r holl gyflogeion yn gymwys i gael tâl salwch galwedigaethol neu gontractiol. Gall y rhai nad ydynt yn gymwys i gael SSP neu'r rhai sydd angen cymorth ariannol ychwanegol tra byddant i ffwrdd ar salwch wneud cais am fwy o gymorth drwy'r system les, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau unigol.

Mae'r Llywodraeth yn nodi bod llawer o randdeiliaid yn awyddus i weld cynnydd yn y gyfradd o SSP, gan gynnwys newidiadau posibl i'r strwythur. Bydd cyfradd SSP yn parhau i fod yn destun proses uwchraddio flynyddol ac rydym wedi ymrwymo i barhau i feithrin ein dealltwriaeth o sut mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar gyflogwyr a chyflogeion.

## Diwygio SSP ymhellach

Yn olaf, awgrymodd nifer fach o ymatebion newidiadau polisi pellach, gan gynnwys:

- ymestyn cymhwysedd SSP i'r hunangyflogedig;
- ymestyn cymhwysedd SSP i gynnwys pob gweithiwr, nid dim ond y rhai a ddosbarthir fel cyflogeion;
- newid strwythur SSP fel ei fod yn cael ei gyfrifo fesul awr, yn hytrach na bob dydd; a
- ymestyn hyd SSP o 28 wythnos i 52 wythnos.

Mae'r mesurau yn y Bil Hawliau Cyflogaeth yn gamau pwysig i sicrhau bod y rhwyd ddiogelwch o dâl salwch ar gael i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Mae'n ehangu cymhwysedd i hyd at yr 1.3 miliwn o gyflogeion nad oes ganddynt hawl i SSP ar hyn o bryd a dileu'r cyfnod aros fel bod SSP yn cael ei dalu o'r diwrnod cyntaf o waith a gollir oherwydd absenoldeb salwch yn cefnogi Prydain wrth iddi symud yn ei blaen. Mae'r diwygiadau'n cyfrannu at greu'r amodau cywir ar gyfer mynd i'r afael ag ansicrwydd yn y gwaith, gwella safonau byw a chael Prydain i dyfu eto.

Mae'r Llywodraeth yn deall bod llawer o randdeiliaid yn awyddus i weld y system SSP yn cael ei diwygio ymhellach. Mae'r mesurau hyn yn hanfodol i gryfhau SSP, ac mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i barhau i weithio'n agos gyda chyflogeion, rhanddeiliaid a busnesau i ddatblygu a gweithredu system sy'n deg, yn gefnogol ac yn effeithiol i bawb. Mae SSP yn un rhan o gynnig ehangach gan y Llywodraeth i gefnogi cyflogeion a chyflogwyr i sefydlu amgylchedd gwaith cynhwysol a gwerth chweil.

# Casgliad a Chamau Nesaf

Mae angen i'r rhan fwyaf ohonom gymryd diwrnod i ffwrdd o'r gwaith ar ryw adeg yn ein bywydau gwaith i wella ar ôl salwch. Mae pob cyflogai yn haeddu'r tawelwch meddwl y mae rhwyd ddiogelwch SSP yn ei gynnig pan fyddant yn sâl ac efallai eu bod yn teimlo'n bryderus ac yn agored i niwed. Dengys ymatebion i'r ymgynghoriad *Cryfhau Tâl Salwch Statudol* pa mor effeithiol a phellgyrhaeddol yw SSP, a pha mor bwysig ydyw bod y Llywodraeth yn parhau i weithio ar y cyd â chyflogeion, cyflogwyr a chymdeithas sifil i gael hyn yn iawn.

Rydym wedi ymrwymo i rymuso cyflogeion, hyrwyddo ein busnesau a sbarduno twf economaidd. Drwy sicrhau bod cyflogeion yn teimlo eu bod yn gallu cymryd yr amser i ffwrdd o'r gwaith sydd ei angen arnynt i wella, rydym hefyd yn helpu i ddiogelu ein system iechyd trwy leihau lledaeniad clefydau heintus ac atal cyflyrau hirdymor rhag gwaethygu.

Mae'r Llywodraeth wedi clywed gan ymatebwyr a thrwy ein trafodaethau ymgysylltu, yr hyn y maent yn ei gredu y dylai'r gyfradd ganrannol fod, a pham. Er nad oedd consensws clir gan randdeiliaid ar y gyfradd ganrannau, credwn fod cyfradd o 80% yn darparu sicrwydd ariannol i gyflogeion sydd ar gyflogau isel gymryd y cyfnod cywir o amser i ffwrdd o'r gwaith sydd ei angen arnynt pan na allant weithio oherwydd salwch, tra hefyd yn cyfyngu ar gostau i fusnesau.

Rydym wedi ymrwymo i barhau i weithio'n agos gyda chyflogeion, cyflogwyr ac undebau llafur i ddatblygu a gweithredu system sy'n deg, yn gefnogol ac yn ffafriol i gynnal gweithle cynhwysol a chynhyrchiol. Mae cyfradd canran o 80% yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn ac yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng cefnogi cyflogeion a chyflogwyr. Bydd gwelliant i gynnwys y gyfradd ganrannol yn y Bil Hawliau Cyflogaeth yn cael ei gyflwyno i'w ystyried yn y Cyfnod Adroddiad yn Nhŷ'r Cyffredin.

Y cam cyntaf yn unig yw'r Bil Hawliau Cyflogaeth o ran cyflenwi ein *Cynllun Gwneud i Waith Dalu*. Ochr yn ochr â Strategaeth Ddiwydiannol newydd y Llywodraeth, bydd y Bil yn cefnogi cenhadaeth y Llywodraeth i gynyddu cynhyrchiant a chreu'r amodau cywir ar gyfer twf economaidd hirdymor cynaliadwy, cynhwysol a diogel. Ochr yn ochr â hyn, mae ein hadolygiad *Cadwch Brydain yn Gweithio* yn arwydd o'n dymuniad i weithio'n agos gyda busnes, ac i adeiladu partneriaeth i wella ansawdd a chynhwysiant gwaith.

Llywodraeth sy'n cael ei gyrru gan genhadaeth yw ein un ni, ac mae'n iawn ein bod yn gweld y newidiadau SSP hyn fel rhan o ddarlun mwy. Mae'r ymgynghoriad hwn, ein Bil Hawliau Cyflogaeth, a'n *Cynllun Gwneud i Waith Dalu,* ynghyd â'n huchelgeisiau *Cael Prydain i Weithio* yn ysgogiadau pwysig i'n helpu i sicrhau twf economaidd, chwalu rhwystrau i gyfleoedd ac adeiladu GIG sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Mae'n hanfodol ein bod yn gweithio mewn partneriaeth i gyflenwi'r uchelgeisiau hyn – mynd i'r afael â gwaith ansicr a chyflogau isel, helpu mwy o bobl i aros mewn gwaith, ac adeiladu economi iach.

Wrth i ni symud ymlaen gyda'n hymrwymiad i gryfhau SSP a gweithio mewn partneriaeth â busnesau i uwchraddio hawliau cyflogeion, byddwn yn parhau i wrando a dysgu gan gyflogwyr, cyflogeion a chymdeithas sifil. Er ein bod yn deall bod llawer o randdeiliaid yn awyddus i weld SSP yn cael ei ddiwygio ymhellach, rydym yn hyderus mai dyma'r camau cywir sy'n darparu'r sicrwydd ariannol sydd ei angen ar gyflogeion a helpu i gefnogi'r hwb o ran cynhyrchiant y mae cyflogwyr ei eisiau, yn y hirdymor. Mae'r *Cynllun Gwneud i Waith Dalu* yn ymrwymiad hirdymor i ddiwygio'r farchnad lafur mewn modd mesuredig, systematig ac yn rhan o'n cynllun ar gyfer adnewyddu cenedlaethol hirdymor a chael Prydain i weithio a thyfu eto.

Adran Gwaith a Phensiynau
**www.gov.uk**

ISBN 978-1-5286-5382-4
E03273303